


## Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 9 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Costau Byw a'r rhaglen Lleoedd lleol ar gyfer natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

---

## NEWYDDION

Rwy'n ysgrifennu atoch heddiw ar ran **Iaith mewn Iechyd**, prosiect y GIG dan arweiniad CEDAR (Canolfan ar gyfer Gwerthuso, Asesu Dyfeisiau ac Ymchwil Gofal Iechyd), sy'n sicrhau bod holiaduron meddygol y GIG yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Yna rydym yn profi'r cyfieithiadau hyn gyda'r cyhoedd a chleifion i wneud yn siŵr eu bod yn glir, yn naturiol ac yn hawdd eu deall gan siaradwyr Cymraeg ledled y wlad.

Er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus, rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i'n helpu i brofi'r cyfieithiadau. Felly, roeddwn i'n gobeithio byddech chi'n gallu helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith ac annog mwy o wirfoddolwyr i gymryd rhan yn y gwaith hwn?

Rwyf wedi atodi ein taflen wybodaeth a'n poster i'r e-bost hwn. Mae'r ddau o'r rhain yn cynnwys cod QR, y gellir ei ddefnyddio i gofrestru i'n cronfa ddata ddiogel o wirfoddolwyr. A allech chi:

- Rhannu'r atodiadau hyn gydag unrhyw gysylltiadau (y tu mewn a/neu'r tu allan i'ch sefydliad), a allai fod â diddordeb mewn cymryd rhan
- Cysylltu â ni ar y cyfryngau cymdeithasol (ein Instagram: Iaithmewniechyd_gig) a rhannu ein postiadau gyda'ch dilynwyr
- Cymryd rhan eich hunain, os yw'n rhywbeth yr hoffech chi ein helpu ag ef.

Bydd unrhyw gefnogaeth y gallwch chi ei rhoi i ni yn gwneud gwahaniaeth enfawr a byddem yn ddiolchgar iawn am eich help.

Os hoffech chi gael mwy o wybodaeth, mae croeso i chi anfon e-bost ataf. Byddem yn hapus iawn i drefnu sgwrs neu anfon rhagor o fanylion atoch.

IaithmewnIechyd.CEDAR.Cav@wales.nhs.uk

.

**Pamffled** | **Poster**

------------------------------




## Bwletin Chwarae Cymru

Dyma linc i weld rhifyn diweddara o Bwletin Chwarae Cymru

**Gweler mwy yma**

------------------------------

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dwy Ffrwd Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant Newydd – Nawr ar agor!**

**1️⃣ Arloesi a Gweithio mewn Partneriaeth i fynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb a Hyrwyddo Cynhwysiant**

**💰 Cyfanswm y gronfa: £450,000**

1. Gwobrau'n dechrau o **£40,000**

1. Yn ddelfrydol ar gyfer **ceisiadau cydweithredol**, cronni adnoddau, a modelau cymorth croestoriadol.

**2️⃣ Grant Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu**

**💰 Cyfanswm y gronfa: £750,000**

Wedi'i gynllunio i ariannu ymwybyddiaeth ac ymgysylltu i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. Dwy haen ar gael:

1. **£2,000–£9,999**: Ar gyfer mentrau ar raddfa lai

1. **£10,000–£100,000**: Ar gyfer mentrau ar raddfa fwy.

📌 *Gall sefydliadau ar lawr gwlad wneud cais fel cydweithredwyr gyda sefydliad trydydd sector arweiniol (elusen neu gwmni cofrestredig).*

📅 **Dyddiadau Allweddol**

1. **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau**: 16 Tachwedd 2025

1. **Dyddiad hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus**: Diwedd Rhagfyr 2025

1. **Cyfnod cyflawni'r prosiect**: Tan 30 Medi 2026

📣 **Mwy o wybodaeth**

I gefnogi ymgeiswyr:

1. Cynhelir yr holl ganllawiau ac adnoddau ar **tudalen we bwrpasol**: Gwneud cais am gyllid o dan y rhaglen grant cydraddoldeb a chynhwysiant | LLYW.CYMRU

1. **Gall CGGC** a Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) **CVCs** gynnig cymorth gyda cheisiadau am gyllid: Cefnogi'r Trydydd Sector Cymru.

1. **Bydd gweithdai** yn cael eu cynnal i gynnig rhagor o wybodaeth - manylion i ddilyn

Mae hwn yn gyfle unigryw i helpu i lunio dyfodol cydraddoldeb yng Nghymru. Rydym yn eich gwahodd i wneud cais am gyllid i gefnogi eich gwaith wrth hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol.

🔗 **Ewch i Gwneud cais am gyllid o dan y rhaglen grant cydraddoldeb a chynhwysiant | LLYW.CYMRU i gael manylion llawn a chanllawiau ymgeisio.**

---

## Mae llu o wybodaeth ar gael ar ein gwefan

### Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:

**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu

canllawiau statudol a chanllawiau eraill.

Rydym yn adolygu'r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael**

**Mwy o Fanylion**

......................

## Nodiadau Datblygu Ymarfer:

**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**

Gobeithiwn y bydd Cynghorau'n parhau i gael ein Nodiadau Datblygu Ymarfer yn ddefnyddiol. Gellir gweld pob un ohonynt yn Nodiadau Datblygu Ymarfer - Un Llais Cymru. Caiff pob Nodyn ei adolygu'n flynyddol. Gellir gweld fersiynau wedi'u diweddaru ar y ddolen y cyfeirir ati. Rydym hefyd yn croesawu awgrymiadau ar gyfer Nodiadau Datblygu Ymarfer yn y dyfodol.

**Gweld Nodiadau Datblygu Ymarfer**

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:

**Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch a'ch clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol**

**Cliciwch yma i weld dyddiadau**

## SWYDDI

## Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:

**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Gwybodaeth am swyddi gwag**

## Swyddi Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus sydd wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth a chamau gweithredu gyda'r nod o gefnogi darpariaeth y flaenoriaeth Weinidogol allweddol hon ar gyfer Cymru.

Rydyn ni'n awyddus i weithio gyda'n partneriaid allanol i ganfod unigolion sydd â diddordeb mewn gwneud cais am swyddi bwrdd.

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:

Dirprwy Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru -

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 26/09/2025 am 16:00.**

Penodi Is-Gadeirydd i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys -

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 03/10/2025 am 16:00.**

---

## Cadwch y Dyddiad

## Digwyddiad ar y Cyd 2025: SLCC ac Un Llais Cymru.

## Rheoli Amgylchedd Newidiol –

Ymunwch â ni am gynhadledd rithwir ddiddorol ddydd Mercher **12 Tachwedd 2025**, yn gyfan gwbl ar gyfer clercod, gweithwyr cynghorau lleol a chynghorwyr yng Nghymru, a gynhelir yn falch gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) ac Un Llais Cymru.

Gyda'r thema amserol 'Rheoli Amgylchedd Newidiol', bydd y digwyddiad hwn yn archwilio sut y gallwch chi lywio heriau sy'n esblygu mewn llywodraeth leol.

Bydd y rhai sy'n mynychu yn clywed mewnwelediadau gan Rob Smith, Prif Weithredwr SLCC, a Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr Un Llais Cymru, yn ogystal ag elwa o fewnwelediadau hyfforddi ymarferol a sesiynau dan arweiniad arbenigwyr ar gyflogaeth, bioamrywiaeth a chynllunio, gan gynnwys y diweddaraf gan Gymorth Cynllunio Cymru.

Peidiwch â cholli'r cyfle hwn i gysylltu, dysgu a chryfhau eich rôl wrth lunio cymunedau gwydn a chynaliadwy.

https://www.slcc.co.uk/event/slcc-ovw-joint-event-2025/

## Cynhadledd Blynyddol Un Llais Cymru

**Dydd Mercher 1 Hydref**

Ymunwch â ni am grynodeb o gyflawniadau'r flwyddyn gan Un Llais Cymru. Mae Cynghorau a Pwyllgorau Ardal eisoes wedi anfon cynigion ar gyfer y cyfarfod blynyddol

Agenda Cynhadledd Cenedlaethol

Bilingual Flier National Conference 2025 A4.pdf

---

## Diweddariad ar prosiectau wedi'i ariannu gan Un Llais Cymru:

**Newyddion Tim Argyfwng Costau byw**

## Cylchlythyr Grantiau a chyfleoedd Posib

Mae rhifyn diweddara o'n cylchlythyr ar gael ac yn llawn linciau defnyddiol

**Cylchlythyr Grantiau a chyfleoedd**

------------------------------

🔎 **Asesiad Effaith Gymdeithasol – Yn dod cyn bo hir**

Mae Un Llais Cymru wedi comisiynu **Asesiad Effaith Gymdeithaso**l cenedlaethol i ddeall yn well ac i ddarparu tystiolaeth o'r rôl hanfodol y mae cynghorau cymuned a thref wedi'i chwarae wrth gefnogi preswylwyr yn ystod yr argyfwng costau byw. Bydd yr ymchwil annibynnol hwn yn archwilio'r mathau o gymorth y mae cynghorau wedi'u darparu, pwy sydd wedi elwa, y heriau y maent wedi'u hwynebu, a ble mae angen cymorth pellach.

Bydd yr asesiad hefyd yn edrych ar gyrhaeddiad ac effaith **Prosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru**, gan gynnwys yr offer, gwybodaeth, a'r cyfleoedd cydweithio a ddarparwyd i gynghorau ers 2023. Mae hwn yn gyfle allweddol i godi proffil y sector, dylanwadu ar Lywodraeth Cymru, a chyflwyno achos dros fuddsoddiad yn y dyfodol.

**Byddwn yn gwahodd pob cyngor i gymryd rhan mewn arolwg byr yn ystod yr Hydref – bydd eich mewnbwn yn hanfodol i sicrhau bod eich gwaith yn cael ei gydnabod.**

Cysylltwch â ni yn colc@onevoicewales.wales neu dilynwch ni ar Fforwm Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru
https://www.facebook.com/groups/2940307276129416

------------------------------

**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:**

Mae Tîm Bioamrywiaeth Un Llais Cymru wedi lansio ei Becynnau Bioamrywiaeth newydd sbon. Bydd y pecynnau hyn yn helpu Cynghorau Cymuned a Thref i greu, gwella ac adfer natur ar garreg y drws a bodloni'r gofynion statudol o dan ddyletswydd Adran 6 ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.

Mae natur yn ei chael hi'n anodd yng Nghymru, Prydain, a'r byd. Mae llywodraethau ledled y byd, gan gynnwys yma yng Nghymru, i gyd wedi gosod targedau i amddiffyn ac adfer bioamrywiaeth, ac rydym yn gwybod bod Cynghorau Tref a Chymuned yn allweddol i wireddu'r targedau hynny. Dyna pam rydym wedi llunio'r pecynnau rhad ac am ddim hyn i'ch helpu i ddechrau arni. I ddarllen am y 10 pecyn rydym yn eu cynnig, dilynwch y ddolen hon: Pecynnau Bioamrywiaeth - Un Llais Cymru.

Rydym hefyd yn cynnal gweminar ar ddydd Iau 25 Medi 19.00 – 20.00 i gyflwyno'r tîm bioamrywiaeth newydd, ein targedau, a sut y gallwn eich helpu, ac i fynd trwy bob un o'r pecynnau. Dyma'ch cyfle i glywed gennym beth rydym yn ei gynnig a gofyn cwestiynau i ni'n uniongyrchol. I gofrestru ar gyfer y weminar, dilynwch y ddolen hon: Pecynnau Bio - Un Llais Cymru.

Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi.

Y Tîm Bioamrywiaeth.

........................................................................

Pecynnau Perllan Cymunedol cadw Cymru'n Daclus

**Mae ein Pecynnau Perllan AM DDIM yn berffaith i ddod â phobl at ei gilydd trwy natur.**

**Creu hyb awyr agored sy'n llawn coed ffrwythau, bylbiau a bocsys cynefin!**

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnig Pecynnau Perllan Cymunedol AM DDIM ar gyfer sefydliadau sydd am greu perllan gymunedol fach, lle gall pobl o bob oed ddod at ei gilydd.

Bydd swyddog wedi ei neilltuo gan Cadwch Gymru'n Daclus yn eich helpu i gynllunio ac adeiladu mannau tyfu, a'ch helpu i blannu eich cnydau newydd, i ofalu amdanynt a'u cynaeafu.

Gwnewch Cais

---

**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24 College St, Ammanford SA18 3AF
United Kingdom

Mae'r E Bwletin yma yn cael eu dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite